Polisi Cyfleoedd Cyfartal Tir Coed

Mae TIR COED yn ymrwymo i gymryd camau pendant i hyrwyddo a chynnal cyfleoedd cyfartal ym mysg y Bwrdd Rheoli, y staff, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth. Mae Tir Coed yn bwriadu hyrwyddo'r polisi hwn yn fewnol ac wrth weithio gydag asiantaethau eraill.
Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed sydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi.

Bydd staff yn cael eu penodi yn ôl eu haddasrwydd ar gyfer y gwaith, bydd pawb â hawl cyfartal i ddatblygiad a dyrchafiad yn ôl eu gallu a'u dyheadau unigol. Rhoddir cyfleoedd cyfartal i bawb, canys beth yw eu rhyw, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, lliw eu croen, tras, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, iaith, oed, daliadau crefyddol a gwleidyddol, statws HIV neu anabledd.

Mae Tir Coed, felly, yn derbyn y gofynion statudol fel y'u nodir yn Neddf Gwahaniaeth ar Sail Rhyw 1975, y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976,y Ddeddf Gyflog Gyfartal 1970 a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, sydd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gyflogwr neu gyflogedig i wahaniaethu rhwng unigolion, neu eu trin yn wahanol, o achos lliw eu croen, eu tarddiad ethnig, eu rhyw, eu statws priodasol neu anabledd.

Diffiniadau

Mae'r Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Rhyw 1975 a'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn gwahaniaethu rhwng gwahaniaethu uniongyrchol a gwahaniaethu anuniongyrchol.

Gwahaniaethu uniongyrchol:

Mae gwahaniaethu uniongyrchol fel arfer yn amlwg ac yn hawdd i'w adnabod. Mae hyn yn digwydd pan mae unigolyn neilltuol yn cael ei drafod yn wahanol, er enghraifft, oherwydd ei dras, lliw ei groen, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, rhyw neu statws priodasol ac mewn modd llai ffafriol nag y byddai rhywun yn disgwyl cael ei drafod fel arfer.

Gwahaniaethu anuniongyrchol:

Bydd rhai achosion ddim mor amlwg. Mae'n bosib y gellid gosod amod neu ofyniad diangen, sydd, er yn cael ei osod i bawb, yn fwy anodd i unigolion o rhai grwpiau o fewn cymdeithas i gwrdd â hwy nag eraill. Mae hyn yn gwahaniaethu anuniongyrchol.

Poenydio

Diffinnir poenydio fel camdriniaeth, neu ymddygiad diangen, sarhaus tuag at unigolyn arall. Mae'n gwneud i'r person hwnnw/honno deimlo o dan fygythiad, wedi ei fychanu neu ei boenydio, gall amharu ar safon gwaith, tanseilio sicrwydd o fewn swydd neu greu amgylchedd gwaith sy'n fygythiol neu'n frawychus. Gall poenydiaeth ddigwydd am nifer o resymau, gan gynnwys tras, rhyw, anabledd, tueddiadau rhywiol, ac oed.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau corfforedig:

Gweithredir cyfle cyfartaledd trwy holl bolisïau a gweithdrefnau Tir Coed.

Mae'r cyfrifoldeb am hyrwyddo cyfartaledd o fewn Tir Coed yn nwylo aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r staff.

Darperir adroddiadau i Fwrdd y Cyfarwyddwyr pob chwe mis, yn ystod misoedd Hydref ac Ebrill. Cyfrifoldeb Bwrdd y Cyfarwyddwyr yw gwerthuso cyflawniad Tir Coed o fewn terfynau'r polisi hwn.

Cyfrifoldebau unigol:

Mae Tir Coed yn disgwyl y dylai pob person fod yn ymwybodol o'i ymddygiad tuag at eraill. Dylid trafod pawb yn gyfartal, gydag urddas a pharch. Dylai pob person sicrhau nad ydynt yn ymddwyn mewn ffordd y gellid ei ddehongli fel poenydiad, gwahaniaethu neu fygythiad.

Mae Tir Coed yn disgwyl i bob unigolyn gydnabod bod gwahaniaethu yn annerbyniol, a'i bod yn fuddiol i Tir Coed, ei Fwrdd o Gyfarwyddwyr a'i staff i fanteisio ar sgiliau'r gweithlu yn ei gyfanrwydd.

Cyfrifoldeb pob aelod o'r staff yw adrodd ar unrhyw achos o wahaniaethu neu boenydio. Dylai aelod o'r staff sy'n credu ei bod yn, neu ei bod wedi, cael ei gwahaniaethu neu ei boenydio mewn unrhyw fodd gysylltu â'r Cadeirydd neu, os nad yw ef ar gael, aelod arall o Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar unwaith.

Dyletswydd Rheolwyr:

Mae gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ddyletswydd i hyrwyddo a chynnal cyfle cyfartal trwy:

- Sicrhau fod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r polisi yma a'r ffaith bod gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu unrhyw ffurf o boenydiaeth, yn hollol annerbyniol, gan osod egwyddorion cyfle cyfartal wrth weithredu holl bolisïau a gweithdrefnau Tir Coed; gan sicrhau nad oes gwahaniaethu, uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw sy'n ymgeisio am Swydd, gan sicrhau bod y broses o adrodd ar achosion o wahaniaethu neu boenydiaeth yn hysbys, yn ddealladwy ac ar gael i'r holl staff.
- Ymateb ar unwaith i atal unrhyw achos o wahaniaethu neu boenydio; sicrhau nad oes deunydd a all fod yn wrthun wedi ei arddangos yn y gweithle.
- Sefydlu a chynnal amgylchedd gwaith sy'n rhydd o boenydiaeth.

Gweithdrefnau

Darparu gwasanaeth:

Mae Tir Coed yn darparu gwasanaethau yn ymwneud â choedwigoedd i ardaloedd gwledig Cymru.

Mewn cydymffurfiaeth a'r polisi hwn, bydd Tir Coed yn sicrhau bod ei wasanaethau yn addas ac yn gynwysedig. Rhoddir cefnogaeth i bawb sy'n dymuno cyfranogi yng ngwaith Tir Coed. Mae gwahaniaethu'n anheg, pun ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wrth ddarparu unrhyw un o wasanaethau Tir Coed yn anghyfreithlon.
Bydd Tir Coed yn sicrhau cyfle cyfartal wrth ddarparu ei wasanaeth trwy:

- adolygu darpariad gwasanaeth yn nhermau ei effaith ar gydraddoldeb;
- adnabod meysydd gwaith ple nad yw rhannau o'r gymuned yn medru cyfranogi yng ngweithgareddau Tir Coed ar hyn o bryd;
- gweithredu egwyddorion cydraddoldeb wrth bennu blaenoriaethau Tir Coed;
- ymateb i geisiadau am wasanaeth mewn ffordd hyblyg a chreadigol;
- arolygu ac adrodd ar achosion ple nad yw canllawiau'r polisi hwn wedi eu dilyn;
- anelu at gwrdd ag anghenion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd;

- sicrhau mynediad i adeiladau Tir Coed a gwneud popeth sy'n rhesymol bosib i sicrhau bod mannau cyfarfod yn cynnig mynediad i bawb;

Hysbysir Darparwyr Gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth am ymrwymiad Tir Coed i gynnig cyfleoedd cyfartal ac am fodolaeth y polisi hwn.

Arolygu:

Bydd Tir Coed yn arolygu ac yn adolygu addasrwydd a chyfleuster ei wasanaethau er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â gofynion y polisi hwn. Bwrdd y Cyfarwyddwyr a fydd yn gyfrifol am ofalu ein bod yn cwrdd â'n hamcanion.

Dylai Tir Coed arolygu ac adolygu'r camau priodol er mwyn gwella cyfleuster staff ac adnoddau i bobl gydag anabledd, mewn ymgynghoriad gyda'r cyrff perthnasol;

Dylai Tir Coed barhau i sicrhau bod y gwaith polisi yn cwmpasu persbectif cydraddoldeb a'i fod yn hysbysu ac yn ymgynghori gyda'r cyrff perthnasol fel bo'r galw.

Is-gytundebu:

Is-gytundebir Darparwyr Gwasanaeth gan Tir Coed trwy system sydd yn deg ac yn agored i rychwant o ddarparwyr posib, o fewn meini prawf neilltuol. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth:

- hyfforddiant;
- gweithgareddau'n ymwneud â choedwigoedd;
- digwyddiadau;
- dylunio ac argraffu;
- cyfieithu;
- nwyddau a gwasanaethau.

Recriwtio a phenodi swyddi:

Cyflawnir recriwtio a phenodi i gydymffurfio â pholisi cyfleoedd cyfartal Tir Coed. Dim ond gofynion y gellid eu cyfiawnhau fel bod yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd yn effeithiol a fydd yn cael eu cynnwys yn y manylion person. Mae'n rhaid selio penderfyniadau i benodi Swydd ar rinweddau perthnasol a galluoedd ymgeiswyr i gwrdd â gofynion y manylion person.

Termau ac amodau:

Mae termau ac amodau cyflogi Tir Coed yn cwrdd â gofynion deddfwriaeth cyflogi cyfredol ac ymarfer da. Pan fydd angen, byddwn yn diwygio ac yn ychwanegu at y termau a'r amodau cyfredol er mwyn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Arolygu - cedwir polisïau a gweithdrefnau o dan arolygiaeth i sicrhau nad ydynt yn gweithredu yn erbyn cyfleoedd cyfartal, yn unol â deddfwriaeth gyfredol.

Gweithredu

Hyrwyddo'r polisi:

Bydd aelodau'r Bwrdd Rheoli a'r staff yn derbyn copi o'r polisi hwn ac yn ymwybodol o'r cynnwys a'r gofynion.

Arolygu:

Bydd Tir Coed yn arddangos ei ymrwymiad parhaol i weithredu'r polisi hwn trwy ei arolygu a'i adolygu pob chwe mis. Bydd y cyfrifoldeb i sicrhau bod hyn yn digwydd yn nwylo Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Ple mae tystiolaeth nad yw staff, Darparwyr Gwasanaeth neu Ddefnyddwyr Gwasanaeth yn cael cynnig cyfleoedd cyfartal, bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed yn dilyn camau pendant i archwilio ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i feini prawf i ddarganfod a yw unigolion neu grwpiau penodol yn cael eu heithrio, eu hanghefnogi neu eu rhoi dan anfantais. Dylid tynnu sylw Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr at bryderon penodol, yn ysgrifenedig, yn y lle cyntaf.

ADOLYGIAD DIWETHAF

DYDDIAD:

ARWYDDWYD:

SAFLE:

ar ran Bwrdd Cyfarwyddwyr Tir Coed